

CYMRU'N MYNNNU NEWID

Gweithio gyda
Llywodraeth Cymru a'r
Senedd i newid dyfodol
canser y fron

NI YW BREAST CANCER NOW

Prif elusen
canser y fron y
DU. Ac rydym
yn cyfuno pŵer
gwyddoniaeth
a chefnogaeth i
newid cancer y
fron. Nawr.

Mae gennym weledigaeth
feiddgar. Sef erbyn 2050, bydd
pawb sydd â chanser y fron yn
byw ac yn byw'n dda.

Er mwyn newid dyfodol cancer
y fron yng Nghymru, mae gennym
2 flaenoriaeth:

1

**Diagnosis
cyflymach a
chynharach i achub
a gwella bywydau**

2

**Pawb yn cael
y gofal a'r
gefnogaeth orau**

Ni allwn ei wneud ar ein
pennau ein hunain. Ond
gyda'n gilydd, gan weithio
gyda Llywodraeth Cymru
a'r Senedd, gallwn wneud i
newid ddigwydd.



MAE CANSER Y FRON YN DAL I FOD YN UN O'R HERIAU IECHYD MWYAF YNG NGHYMRU

Yng Nghymru, mae tua

2,800 O BOBL

yn cael diagnosis bob blwyddyn

Mae mwy o bobl yn cael diagnosis o ganser y fron nag erioed o'r blaen. Dyma'r cancer mwyaf cyffredin mewn menywod yng Nghymru, gan gyfrif am 22% o'r holl achosion newydd.¹

Mae tua 2,800 o bobl (2,700 o fenywod ac 20 o ddynion) yn cael diagnosis bob blwyddyn yng Nghymru. Mae hynny tua 54 o bobl pob wythnos.²

Ac mae tua 61,000 o bobl yn byw gyda chanser y fron metastatig yn y DU.³ Mae cancer y fron metastatig (neu eilaidd) yn digwydd pan fydd cancer y fron yn lledaenu i rannau eraill o'r corff. Gellir ei drin, ond ar hyn o bryd ni ellir ei wella.

**Rydym wedi gweld cynnydd.
Ond mae gormod o bobl yn
dal i farw o ganser y fron.**

Yng Nghymru, cancer y fron yw'r ail achos mwyaf o farwolaeth o ganser mewn menywod o hyd.⁴ Dyna 570 o bobl yn marw bob blwyddyn – bron pob un o ganser y fron metastatig.⁵

A thyfu mae'r her yn flynyddol. Mae'r gyfradd marwolaethau a goroesi 5 mlynedd yn y DU yn parhau i fod yn waeth nag mewn gwledydd tebyg.⁶ Erbyn 2035, mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn rhagweld y bydd nifer y bobl sy'n cael diagnosis o ganser y fron yn codi i 3,449.⁷

Oni bai ein bod yn gweithredu nawr, bydd nifer y bobl sy'n cael diagnosis yn parhau i gynyddu. A bydd miloedd yn parhau i golli eu bywydau i'r clefyd.

**Mae anghydraddoldebau
iechyd gwirioneddol mewn
canser y fron**

Mae rhai pobl yn fwy tebygol o'i gael. Mae eraill yn aros yn hirach i gael diagnosis. Ac mae eraill yn cael triniaeth a gofal gwaeth. Dim ond oherwydd pwy ydyn nhw neu ble maen nhw'n byw.

Mae menywod sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn cael diagnosis yn ddiweddarach ac mae ganddynt ganlyniadau goroesi gwaeth o'i gymharu â menywod yn y cymunedau lleiaf difreintiedig.⁸

Gall cancer y fron effeithio ar unrhyw un. Ond nid yw'n effeithio ar bawb yn gyfartal. Mae angen i'r anghydraddoldebau iechyd hyn newid.

1. Uned Gwybodaeth a Gwyliadwriaeth Canser Cymru lechyd Cyhoeddus Cymru (2025). Mynychder cancer y fron 2. Uned Gwybodaeth a Gwyliadwriaeth Canser Cymru lechyd Cyhoeddus Cymru (2025). Mynychder cancer y fron. Ffigurau cyfartalog ar gyfer 2019-22. 3. Yn seiliedig ar ganfyddiadau gan Palmieri, C., Owide, J., a Fryer, K. (2022). Estimated Prevalence of Metastatic Breast Cancer in England, 2016-2021. JAMA Network Open, 5(12), e2248069 <http://doi.org/10.1001/jamanetworkopen.2022.48069>. Mae'r papur hwn yn amcangyfrif bod 57,215 o bobl yn byw gyda chanser y fron eilaidd yn Lloegr yn 2020/21. Yn ogystal â data a ofynnwyd amdano gan Public Health Scotland (2022), mae'n amcangyfrif bod 3,945 o bobl yn byw gyda chanser y fron eilaidd ar ddiwedd 2020 4. Uned Gwybodaeth a Gwyliadwriaeth Canser Cymru lechyd Cyhoeddus Cymru (2025) Marwoldeb cancer yng Nghymru, 2002 – 2024.

5. Ffigurau cyfartalog ar gyfer 2021-2023, Uned Gwybodaeth a Gwyliadwriaeth Canser Cymru lechyd Cyhoeddus Cymru. Marwoldeb cancer yng Nghymru, 2002 – 2024. 6. Walters S, Maringe C, Butler J, Rachet B, Barrett-Lee P ac eraill, (2013), 'Breast cancer survival and stage at diagnosis in Australia, Canada, Denmark, Norway, Sweden and the UK, 2000-2007: a population-based study'. British Journal of Cancer 108, 1195-208, doi: 10.1038/bjc.2013. 6. Ar gael ar: <https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/23449362> 7. lechyd Cyhoeddus Cymru (2025) "Caner yng Nghymru – tueddiadau ac amcanestyniadau - lechyd Cyhoeddus Cymru. 8. Uned Gwybodaeth a Gwyliadwriaeth Canser Cymru lechyd Cyhoeddus Cymru (2025). Mynychder cancer yng Nghymru. Uned Gwybodaeth a Gwyliadwriaeth Canser Cymru lechyd Cyhoeddus Cymru (2025). Goroesi Caner yng Nghymru, 2002-2021. Mae 85% o fenywod o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn goroesi eu caner am 5 mlynedd o'i gymharu â 95% o fenywod o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig.

MAE'R HERIAU A WYNEBIR GAN BOBL SY'N BYW GYDA CHANSER Y FRON METASTATIG YN WAHANOL

Gellir trin canser y fron metastatig, ond ni ellir ei wella. Nod y driniaeth yw rheoli'r canser, lleddfu symptomau a rhoi mwy o amser i bobl. Ond ymhen yr hir a'r hwyr mae'r triniaethau'n rhoi'r gorau i weithio, mae amser yn dod i ben.

Gwyddom fod pobl â chanser y fron metastatig yn profi oedi cyn cael diagnosis. Anhawster i gael mynediad at gefnogaeth nyrs glinigol arbenigol. A gofid am argaeledd triniaethau yn y dyfodol.


Ar hyn o bryd, dydyn ni ddim hyd yn oed yn gwybod faint o bobl sy'n byw gyda chanser y fron metastatig yng Nghymru. Heb ddata priodol, rydym yn gweithredu yn y tywyllwch.

Mae hynny'n golygu na ellir cynllunio'n iawn ar gyfer anghenion pobl â chanser y fron metastatig, na allant fod yn siŵr eu bod yn cael y gefnogaeth gywir, ac nid oes unrhyw sicrwydd y byddant yn gallu cael y driniaeth a'r gofal sydd eu hangen arnynt. Yn aml, maen nhw'n teimlo fel nad ydyn nhw'n cyfrif.



“Nid oedd fy niagnosis metastatig yn broses syml. Cafodd fy holl metastasis hyd at y sgan o fy ysgyfaint eu canfod trwy i mi ‘deimlo’ y lymphiau a mynd at fy nhîm i’w gwirio. Roeddwn i’n teimlo nad oedd yn deg i mi fod yn gyfrifol am ddod o hyd i’r canser fy hun. Roeddwn i eisiau mwy o fonitro. Wedi dweud hyn, rwy’n credu bod fy ngofal yn y GIG wedi bod yn rhagorol. Rydw i wedi cael triniaeth dda ac mae’r staff rydw i wedi rhyngweithio â nhw wedi bod yn gefnogol ac yn glir ar y cyfan yn eu sgysiau gyda mi. Rydw i’n teimlo y gwrandawyd arnaf, er weithiau dydyn nhw ddim wedi gwneud popeth roeddwn i wedi gobeithio amdano. Gallaf weld bod y gwasanaeth dan straen ac maen nhw’n gwneud eu gorau o dan yr amgylchiadau penodol.”

NAOMI



NID YW CANCER Y FRON YN EFFEITHIO AR EIN BYWYDAU YN UNIG – MAE'N EFFEITHIO AR EIN HECONOMIY

Yn 2025, amcangyfrifwyd bod cost cancer y fron i economi Cymru rhwng £160 miliwn a £173 miliwn - yn ôl yr adroddiad 'Cost cancer y fron' a gyhoeddwyd gennym gyda Demos.⁹

Erbyn 2050, rhagwelir y bydd hyn yn codi i rhwng £191 miliwn a £206 miliwn.⁹ Mae'r rhan fwyaf o'r costau hyn yn deillio o golledion cynhyrchiant oherwydd salwch a marwolaeth gynnar, yn hytrach na chostau uniongyrchol i'r GIG o ran diagnosio, trin a chefnogi pobl â chanser y fron.

Ac amcangyfrifir bod cyfanswm y costau lles sy'n gysylltiedig â chanser y fron yng Nghymru yn £984 miliwn.⁹ Mae hyn yn cynnwys ansawdd bywyd is oherwydd salwch a marwolaeth gynnar person, a'r effaith ar ofalwyr anffurfiol,

partneriaid a phlant. Mae hyn yn dangos yr effaith enfawr sydd gan y clefyd ar fywydau pobl.

Yn ogystal â'r manteision dynol, mae cymhelliant ariannol clir i atal achosion a marwolaethau o ganser y fron, a gwella ansawdd bywyd pobl sy'n byw gydag ef neu y tu hwnt iddo.

Drwy flaenoriaethu a buddsoddi mewn atal, diagnosis cynnar a mynediad at driniaeth a chymorth, gallem nid yn unig achub a gwella bywydau. Gallem hefyd leihau costau i'r GIG a hybu cynhyrchiant ac economi Cymru.

Erbyn 2050, bydd y gost flynyddol a ragwelir o ganser y fron i'r economi yn codi i rhwng
£191-£206M

9. Demos (2025). Cost cancer y fron i'r DU: Diweddariad 2025

NID YW GWELLA GOROESI CANCER Y FRON YN ANOCHEL

Nid yw cancer y fron yng Nghymru yn fater sydd wedi ei ddatrys. Ni fydd canlyniadau'n gwella ar eu pennau eu hunain. A heb weithredu, gallai pethau waethygu.

Gwyddom beth sydd angen digwydd i wella goroesiad. Ond rydym yn pryderu bod hunanfodlonrwydd ynghylch cancer y fron yng Nghymru.

- Mae targed sgrinio'r fron y GIG wedi'i fethu yng Nghymru am y 7 mlynedd diwethaf¹⁰.
- Mae pobl yn parhau i aros yn hir am ddiagnosis a thriniaeth¹¹.
- Mae casglu data cancer y fron metastatig yn dal yn anghyflawn¹².
- Mae loteri cod post annerbyniol yng Nghymru ar gyfer cael mynediad at driniaethau a gwasanaethau.



...OND GELLIR EI GYFLAWNI

10. Adroddiad ystadegol blynyddol Bron Brawf Cymru (2026) 2023 i 2024. 11. Llywodraeth Cymru (2026) Amser aros cancer GIG: Ebrill 2005 i Fawrth 2026. 12. Canolfan Gydweithredu yr Archwiliad Cenedlaethol o Ganser (2025) Archwiliad Cenedlaethol o Ganser Metastatig y Fron Cyflwr y Genedl 2025

DROS Y 4 BLYNEDD NESAF, RHAID I LYWODRAETH CYMRU WEITHREDU. A DYMA SUT:

1. DIAGNOSIS CYFLYMACH A CHYNHARACH I ACHUB A GWELLA BYWYDAU

Pe bai'r targed o 80% wedi'i gyrraedd yn 2025, byddai hyn wedi cynhyrchu arbedion cost amcangyfrifedig o

£8-£9M
i economi Cymru

Gwyddom fod diagnosis cynnar yn achub bywydau. Felly mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod yn gwneud diagnosis o ganser y fron cyn gynted â phosibl, pan mae'n haws ei drin. Pan gaiff canser y fron ei ganfod yng ngham 1, mae bron i 100% o bobl yn goroesi.

Sgrinio yw'r llwybr sydd fwyaf tebygol o ganfod canser y fron yn gynnar ac achub bywydau. Ond o ran presenoldeb, mae'r safon ofynnol o 70%, a'r targed o 80%, yn cael eu methu'n barhaus yng Nghymru.¹³

Ynghyd ag achub bywydau, mae manteision economaidd hefyd i gynyddu'r nifer sy'n cael eu sgrinio. Pe bai sgrinio'r fron yn cyrraedd y targed o 80% o bobl yn cael eu sgrinio, byddai'r cynnydd mewn diagnosisau cynnar yn arbed £8-9 miliwn i economi Cymru.¹⁴

Ac mae anghydraddoldebau o ran pwy sy'n cael mynediad at sgrinio'r fron, y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw hefyd. Er enghraifft, yng Nghymru mae gwahaniaeth

o dros 15% yn y nifer sy'n cael sgrinio'r fron rhwng y cymunedau lleiaf difreintiedig a'r rhai mwyaf difreintiedig.¹⁵ Mae hyn yn golygu bod cyfleoedd i wneud diagnosis o ganser y fron a dechrau triniaeth yn gynnar yn cael eu colli.

Gwyddom fod rhwng 5-10% o ganserau'r fron yn cael eu hachosi gan newid gennyn etifeddol.¹⁶ Felly i fenywod sydd mewn mwy o berygl, mae mynediad at sgrinio cynharach a mwy rheolaidd yn ogystal â thriniaethau sy'n lleihau risg yn hanfodol i achub mwy o fywydau.

A gorau po gyntaf y caiff canser y fron ei ddiagnosisio, er mwyn i bobl ddechrau triniaeth a chael y gofal a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt. Mae hyn yn ei dro yn gwella ansawdd bywyd pobl ac yn lleihau pryder aros.

Yr amser aros targed cyfredol o atgyfeiriad i driniaeth yw 62 diwrnod. Ond mae nifer fawr o bobl yn dal i aros yn llawer hirach na hyn, gydag amrywiad ar draws byrddau iechyd Cymru.¹⁷

15. Iechyd Cyhoeddus Cymru (2022) Adroddiad Annhegwch yr Is-adran Sgrinio 2020-21. 18.9% ar gyfer Bron Brawf Cymru 16. A beginner's guide to BRCA1 and BRCA2. The Royal Marsden. NHS Foundation Trust 17. Llywodraeth Cymru (2026) Amser aros canser GIG: Ebrill 2005 i Fawrth 2026



“Daeth y diagnosis fel sioc llwyr. Roedd canser yn rhywbeth sy'n digwydd i rywun arall. Yr hyn a ddilynodd oedd taith nad oeddwn wedi paratoi ar ei chyfer. Er i mi gael diagnosis ym mis Tachwedd, ni ddechreuodd fy nhriniaeth tan fis Chwefror – ymhell y tu hwnt i darged Llywodraeth Cymru ar gyfer amserlenni triniaeth canser. Creodd yr oedi hwnnw straen aruthrol yn ystod yr hyn a oedd eisoes yn un o gyfnodau mwyaf brawychus fy mywyd. Ar adegau roedd yn teimlo fel petawn i'n rheoli fy nhaith canser fy hun. Roeddwn i'n chwilio am apwyntiadau, yn dilyn canlyniadau sganiau ac yn ceisio rhoi trefn ar yr hyn oedd yn digwydd nesaf.”

JULIE

FELLY BETH DDYLAI DDIGWYDD?

- Dylai pawb yng Nghymru sydd â pherygl uwch o ganser y fron oherwydd hanes teuluol neu eneteg fod yn ymwybodol o'u risg, a gallu cael mynediad at driniaethau sgrinio a lleihau risg ychwanegol.
- Dylai pobl yng Nghymru fod yn ymwybodol o arwyddion a symptomau cancer y fron cychwynnol a metastatig, er mwyn eu helpu i gael diagnosis yn gyflym a chael mynediad at y driniaeth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt.
- Dylai'r rhaglen sgrinio'r fron gyrraedd y targed o 80% o fenywod yn cael eu gwahodd i apwyntiad sgrinio'r fron ac yn derbyn eu gwahoddiad.
- Rhaid cyflwyno mentrau i wella nifer y bobl sy'n cael eu sgrinio'r fron. Mae hyn yn cynnwys ymgyrch ymwybyddiaeth o sgrinio'r fron sy'n canolbwyntio ar ardaloedd a chymunedau lle mae'r niferoedd sy'n cael eu sgrinio'n isel. Dylid darparu

llwybrau mwy cyfleus a hyblyg i mewn i wasanaethau sgrinio'r fron hefyd – gan gynnwys sawl opsiwn i drefnu apwyntiadau. Dylid amlinellu hyn yn y Strategaeth Tegwch Sgrinio nesaf ar gyfer 2026-2031.

- Mae angen cyhoeddi data'n rheolaidd ar y nifer y bobl sy'n cael eu sgrinio, gan gynnwys cyfraddau presenoldeb yn benodol ar gyfer cymunedau ethnig lleiafrifol a grwpiau eraill sydd heb wasanaeth digonol. Bydd hyn yn gwella atebolrwydd a thryloywder ac yn helpu dangos a yw ymyriadau sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn gweithio.

Mae angen moderneiddio'r rhaglen mewn ffyrdd sy'n caniatáu i'r camau gweithredu uchod gael eu cyflawni, ac i baratoi ar gyfer datblygiadau arloesol sy'n cael eu treialu ar hyn o bryd a allai wella sgrinio ymhellach.

- Rhaid cyrraedd y targed o 75% ar gyfer y Llwybr 62 diwrnod Lle'r Amheuir Canser (targed amseroedd aros cancer Cymru) yn gyson ar gyfer cancer y fron. Rhaid cefnogi byrddau iechyd i nodi ac ymdrin ag achosion sylfaenol oedi. Yn y tymor hir, mae angen safonau newydd, ac mae angen casglu a chyhoeddi data, gan fesur camau allweddol y Llwybr cancer. Dylai hyn gynnwys safonau mwy uchelgeisiol ar gyfer cancer y fron i sbarduno gwelliannau.



“Ym mis Tachwedd 2022, es i gael mamogram arferol. Doedd gen i ddim symptomau, roeddwn i'n teimlo'n hollol iach, ac yn rhedeg bob dydd. Bron na wnes i fynd oherwydd bod y gwaith mor brysur a minnau'n teimlo mor dda. Eto i gyd, achubodd yr apwyntiad arferol hwnnw fy mywyd. Datgelodd y mamogram diwmor wedi'i gladdu mor ddwfn yn fy mron fel na allwn ei deimlo fy hun. Roedd yn ganser ymledol. Hyd heddiw, rwy'n myfyrio weithiau ar yr hyn a allai fod wedi digwydd pe bawn i wedi penderfynu hepgor yr apwyntiad hwnnw.”

JULIE



“Ym mis Hydref 2018, yn dilyn apwyntiad sgrinio arferol, cefais ddiagnosis o ganser y fron. Roedd yn dipyn o sioc i gael gwybod. Yn ffodus, roedd y lwmp yn eithaf bach, gyda'r mamogram yn ei ganfod yn gynnar. Roedd y tu ôl i'm teth felly allwn i ddim ei deimlo, a dywedodd y meddyg na fyddai wedi gallu chwaith, felly fe wnaeth y mamogram achub fy mywyd yn fy marn i. Cefais lwmpsectomi ym mis Tachwedd 2018, ac ym mis Chwefror dechreuais radiotherapi a gorffen fy nghwrs bythefnos cyn y cyfnod clo. Pe na bai fy nghanser y fron wedi cael ei ganfod yn ystod fy sgrinio arferol, gallai fod wedi golygu mastectomi a chemotherapi hefyd.”

SHELIA

2. PAWB YN CAEL Y GOFAL A'R CYMORTH GORAU

Ledled Cymru, mae anghysondebau yn y driniaeth a'r gofal y gall pobl â chanser y fron eu cael. Mae hyn yn cynnwys opsiynau cyfyngedig ar gyfer adlunio'r fron. Mae angen cymorth ar bobl hefyd i benderfynu pa driniaeth neu wasanaethau sy'n iawn iddyn nhw.

Mae datblygiadau newydd cyffrous ar y gorwel a allai wella diagnosis a thriniaeth canser y fron. Mae angen i ni sicrhau bod triniaethau newydd yn cyrraedd pobl yn gyflym, gyda phawb yn cael mynediad cyfartal ledled y DU.

Mae angen i bobl sy'n byw gyda chanser y fron metastatig anwelladwy gael mynediad at y triniaethau, y gofal a'r gefnogaeth a all eu helpu i fyw'n dda cyhyd â phosibl.

Mae Cymru wedi gwneud cynnydd gyda llwybr cenedlaethol arloesol ar gyfer canser y fron metastatig. Ond gwyddom nad yw data ar gyfer canser y fron



metastatig yn cael ei gasglu a'i adrodd yn gyson ledled Cymru o hyd, er gwaethaf Cymru yn cymryd rhan yn yr Archwiliad Cenedlaethol o Ganser y Fron Metastatig (NAoMe).¹⁸

Mae data cywir yn allweddol i bob elfen o ddiagnosis, triniaeth a gofal rhywun. Heb ddata, mae bron yn amhosibl i wasanaethau a chymorth gael eu teilwra i anghenion pobl.

18. Canolfan Gydweithredu yr Archwiliad Cenedlaethol o Ganser (2025) Archwiliad Cenedlaethol o Ganser Metastatig y Fron Cyflwr y Genedl 2025

FELLY BETH DDYLAI DDIGWYDD?

- Ni ddylai fod unrhyw oedi wrth gael cyffuriau wedi'u cymeradwyo a'u cyflwyno i'w defnyddio o fewn GIG Cymru – fel y gall pobl gael mynediad at driniaethau newydd, personol ac effeithiol cyn gynted â phosibl.
- Dylai pawb sydd â chanser y fron allu cael mynediad at y gwahanol fathau o driniaeth a gwasanaethau sydd ar gael. Mae hyn yn golygu lleihau'r amrywiad yn y triniaethau sydd ar gael ledled Cymru ac oedi diangen cyn cael mynediad atynt.
- Rhaid i'r GIG yng Nghymru gasglu data'n rheolaidd ar brofiadau pob claf canser y fron metastatig a chynradd – gan gynnwys eu diagnosis, eu triniaeth a'u cefnogaeth – a'i ddefnyddio i wella gwasanaethau a chanlyniadau. Dylai hyn gynnwys gwella ansawdd y data a'i ddarparu bob chwarter i'r Archwiliad Cenedlaethol o Ganser y Fron Metastatig (NAoMe).

YMUNWCH Â NI

Gallwn achub mwy o fywydau rhag canser y fron. Ond bydd yn gofyn am flaenoriaethu. Buddsoddiad. Ac uchelgais wleidyddol newydd.

Rydym yn barod i weithio gyda llywodraeth Cymru ac Aelodau'r Senedd i gyflawni dros bobl yr effeithir arnynt gan ganser y fron.

Rydym yn gofyn i chi **weithredu nawr** i newid dyfodol canser y fron yng Nghymru. Dysgwch sut allwch chi gymryd rhan drwy anfon e-bost atom yn publicaffairs@breastcancernow.org

Breast Cancer Now is a charity registered in England and Wales (1160558),
Scotland (SC045584) and the Isle of Man (1200).

